

# Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol

15 Mai 2024

## Yn bresennol

Dr R Heath Davies (Cadeirydd)

Dr M Havard, y Cynghorydd B Price a Mrs V Thomas.

[Ymunodd y Cynghorydd D Clements a'r Cynghorydd M James â'r cyfarfod cyn ystyried y Log Gweithredu (gweler Cofnod 4); Cyrhaeddodd y Cynghorydd S Alderman cyn ystyried y Diweddariad ar y Syndrom Dirgryniad Llaw Braich (gweler Cofnod 10).]

## Swyddogion yn bresennol

Nigel Ireland (Archwilio Mewnol), Jason Blewitt (Archwilio Cymru), Y Prif

Weithredwr, Pennaeth Adfer Byd Natur, Swyddog Perfformiad a

Chydymffurfiaeth, Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu a'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd.

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am -11.25am; 11.30am - 1.00pm)

### 1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Mrs S Hoss a'r Cynghorydd S Skyrme-Blackhall. Nodwyd y byddai'r Cynghorydd S Alderman yn cyrraedd yn ddiweddarach.

### 2. **Datgan Buddiannau**

Nid oedd unrhyw un wedi datgan buddiant.

### 3. **Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2024 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Ar gynnig Dr Havard, a eiliwyd gan Dr Heath-Davies, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2024.

### 4. **Log Gweithredu**

**Nodwyd** y diweddariadau oedd yn y tabl.

### 5. **Adroddiad cyfarfod y Grŵp Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2024**

**Nodwyd** cofnodion y Grŵp Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2024.



## 6. Crynodeb Archwilio Blynyddol 2023

Dywedwyd bod y ddogfen gryno hon yn dangos y gwaith oedd wedi'i gwblhau gan Archwilio Cymru ers mis Chwefror 2023. Croesawodd y Cadeirydd Jason Blewitt o Dîm Archwilio Ariannol Archwilio Cymru a gyflwynodd yr adroddiad, gan ymddiheuro ar ran Non Jenkins o'r Tîm Archwilio Perfformiad am fethu â bod yn bresennol.

Dywedodd Mr Blewitt bod yr adolygiad cenedlaethol o effeithiolrwydd llywodraethu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol bellach wedi'i gyhoeddi, ac y byddai'r adolygiad yn cael ei gyflwyno gerbron y cyfarfod o'r Awdurdod fis Mehefin; er bod rhywfaint o lithriad wedi bod yn y gwaith arfaethedig o edrych ar hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mynediad, y byddai'r amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn yn cael ei drafod gyda'r Prif Weithredwr.

Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod wedi mynegi pryder wrth Archwilio Cymru mai ychydig iawn o waith a wnaed ar berfformiad ar gyfer yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn, ond bod cyfarfod wedi'i drefnu i drafod hyn er mwyn symud ymlaen. Cytunodd y Cadeirydd ei bod yn peri pryder bod yr Awdurdod yn talu am wasanaeth nad oedd wedi'i dderbyn. Atebodd Mr Blewitt y byddai diweddariad yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor.

### **Nodwyd.**

## 7. Adroddiadau Archwilio Mewnol

Croesawodd y Cadeirydd Nigel Ireland o Astari, Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod. Dywedodd bod y gwaith o gyflawni Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2023/24 yn mynd rhagddo'n dda ac nad oedd unrhyw faterion i'w hadrodd. Nodwyd bod gwaith yn parhau ar ddau adroddiad pellach, sef ar Lwybr yr Arfordir ac ar Ddiogelwch Gwybodaeth a Seiberddiogelwch a Diogelu Data, a rhagwelwyd y byddai'r adroddiadau hyn yn cael eu cyflwyno gerbron cyfarfod nesaf y Pwyllgor. Diolchodd i'r staff ar draws y sefydliad am eu cymorth wrth baratoi'r adroddiadau.

Cyflwynwyd pedwar adroddiad i'r Pwyllgor y diwrnod hwnnw, ac roedd y cyntaf o'r rhain yn ymwneud â Chreu Incwm. Daeth yr adroddiad i'r casgliad y gallai'r Awdurdod gymryd sicrwydd rhesymol bod y sefydliad yn gweithredu'n briodol ar yr argymhelliad a wnaed gan Archwilio Cymru yn yr adroddiad Arallgyfeirio Incwm fis Mehefin 2023. Fodd bynnag, roedd angen rhai gwelliannau rheoli i helpu i sicrhau bod risgiau yn cael eu lliniaru yn barhaus ac yn effeithiol yn y maes hwn. Roedd y lefel sicrwydd a roddwyd yn amlygu bod rhai meysydd rheolaeth wedi'u sefydlu yn ddiweddar nad oedd y tîm Archwilio Mewnol yn gallu eu mesur, yn ogystal â rheolaethau allweddol ychwanegol, megis y Strategaeth Fasnachol, nad oedd wedi'u datblygu eto ond bod gan yr Awdurdod



gynlluniau ffurfiol yn eu lle i'w gwireddu. Roedd dau argymhelliad blaenoriaeth ganolig wedi'u gwneud ac y byddai'r argymhellion hyn yn cael eu cynnwys yn y Log Gweithredu Archwilio Mewnol. Dywedodd Mr Ireland bod y Strategaeth Fasnachol yn ddogfen allweddol yr oedd yr Awdurdod yn bwriadu ei chynhyrchu yn y flwyddyn ariannol nesaf, ac ychwanegodd y Prif Weithredwr y byddai'r Strategaeth Fasnachol yn cael ei chyflwyno i gyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol.

Roedd yr ail adroddiad yn Adolygiad Gwerth am Arian oedd yn rhoi cyngor ac arweiniad i helpu'r Awdurdod i wella ei ddulliau a'i strategaeth o ran Gwerth am Arian a hefyd i ystyried y gwaith a wneir gan sefydliadau tebyg eraill, gwerth cymdeithasol ac effaith Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb mewn gwybod a oedd enghreifftiau da ar gael o Strategaethau Gwerth am Arian, a chytunodd yr Archwilydd i roi enghreifftiau i'r swyddogion. Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod llawer o waith yn cael ei wneud ar hyn o bryd o ran caffael, ac y byddai'r dogfennau ar y gwaith hwn yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Gan droi at yr adroddiad ar Reolaethau Ariannol Allweddol, dywedwyd y gallai'r Awdurdod gymryd sicrwydd sylweddol bod fframwaith rheoli effeithiol a chyson yn ei le i reoli'r risg bod gan yr Awdurdod reolaethau ariannol allweddol yn eu lle ac yn effeithiol i reoli'r Cyfriflyfr Prynu. Llongyfarchodd y Prif Weithredwr a'r Aelodau y Tîm Cyllid ar adroddiad cadarnhaol o ystyried y newidiadau diweddar mewn personél. Nododd yr Aelodau yr awgrym i adolygu'r terfynau gwariant, a chynigiodd Mr Ireland roi cyngor ar gynnydd canrannol a awgrymir. Dywedodd y Prif Weithredwr gan mai awgrym o gam gweithredu oedd hwn, yn hytrach nag argymhelliad, y byddai'n cael ei ystyried yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Roedd yr adroddiad terfynol yn adroddiad dilynol oedd yn edrych ar gamau gweithredu blaenorol y cytunwyd arnynt mewn ymateb i argymhellion archwilio mewnol, ac roedd wedi dod i'r casgliad bod yr Awdurdod wedi dangos cynnydd rhesymol tuag at roi'r camau y cytunwyd arnynt ar waith. Roedd yr adroddiad yn nodi bod un argymhelliad blaenoriaeth Ganolig wedi'i ailddatgan (ynghylch y Strategaeth TG) ac un argymhelliad blaenoriaeth Isel newydd (ynghylch tracio argymhellion yn fewnol) a chodwyd dau Awgrym, a manylwyd ar y ddau hyn yn y Cynllun Gweithredu. Atebodd y Prif Weithredwr bod gwaith i ddiweddarau'r Strategaeth TGCh ar y gweill ar hyn o bryd, a bod taenlen tracio wedi'i chreu i fonitro argymhellion, yn hytrach nag ymateb y rheolwyr.

## **Nodwyd.**



## **8. Log Gweithredu ar Archwilio Perfformiad Allanol ac Archwilio Mewnol (yn dod i ben ar 31 Mawrth 2024)**

Atgoffwyd yr Aelodau, yn dilyn cais gan yr Aelodau, bod Log Gweithredu ar gyfer Archwilio Perfformiad Allanol ac Archwilio Mewnol wedi'i greu i gynorthwyo gyda monitro'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt o'r adolygiadau Archwilio. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am bob un o'r camau gweithredu, oedd wedi'u categorio â gradd Coch, Ambr, Gwyrdd, a nodwyd bod y camau hyn bellach wedi'u hychwanegu at y system adrodd ar berfformiad, i ategu'r gwaith o gydlynu'r gwaith o fonitro cynnydd yn erbyn y camau gweithredu.

Amlygodd yr adroddiad bod nifer o'r camau blaenoriaeth uchel bellach wedi'u cwblhau, yn enwedig o ran y Polisi Rheoli Risg a'r Cynlluniau Parhad Busnes ac Adfer ar ôl Trychineb TGCh, yn ogystal â chamau gweithredu eraill o flaenoriaeth canolog.

Roedd yr Aelodau yn bryderus nad oedd yr adroddiad blynyddol ar ddiogelu wedi'i gyflwyno eto. Rhoddodd y Prif Weithredwr sicrwydd bod y Grŵp Diogelu yn parhau i gyfarfod ac mai ychydig iawn oedd i'w adrodd, serch hynny fe fyddai adroddiad yn cael ei gyflwyno. Nodwyd hefyd bod nifer o gamau gweithredu ynghylch lles staff, ac er bod rhai o'r rhain yn cael eu datblygu, roeddent o'r farn bod hwn yn faes pwysig i'w ddatblygu. Yn olaf, o ran y trefniadau cadw gwylidwriaeth ar iechyd, dywedodd y swyddog y byddai cynllun yn cael ei roi yn ei le i symud y cam hwn ymlaen.

**Nodwyd.**

## **9. Adroddiad Chwarterol ar Iechyd, Diogelwch a Lles**

Roedd adroddiad y Rheolwr Prosiect Iechyd a Diogelwch, a gyflwynwyd yn ei absenoldeb gan y Prif Weithredwr, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ddamweiniau a digwyddiadau am y flwyddyn hyd yn hyn, y camau ymlaen o ran adolygu a diweddarau'r Aseidiadau Risg, yr hyfforddiant a gynhaliwyd, a throsolwg o'r arolwg o'r Diwylliant Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd yn gynharach yn y flwyddyn. Hefyd cafwyd adroddiad dangosfwrdd o'r ystadegau salwch staff.

Roedd yr Aelodau yn siomedig i nodi'r achosion o gam-drin, a sicrhawyd hwy bod yr achosion hyn yn cael eu dilyn ymhellach gan y cydnabyddir y gallai'r cyfryw ddigwyddiadau gael effaith negyddol ar y staff; mewn rhai achosion, roeddent o'r farn y gallai categorio'r achosion fel 'achos bron â digwydd' beidio â bod yn briodol.

**Nodwyd.**

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11.25am a 11.30am]



- 10. Adroddiad Diweddarau ar y Syndrom Dirgryniad Llaw Braich (HAVS).**  
Rhoddodd Pennaeth Adfer Byd Natur ddiweddariad ar waith yr Awdurdod i wella'r gwaith o reoli'r Syndrom Dirgryniad Llaw Braich ers yr adroddiad diwethaf fis Tachwedd 2023. Dywedodd bod monitro ac adolygu'r mesurau rheoli yn parhau, a bod profion dirgrynu ar offer yn parhau, a bod yr Awdurdod wedi buddsoddi mewn offer trydan newydd. Dywedwyd bod newidiadau i'r ffyrdd o weithio yn ystod y tymor torri ar draws y flwyddyn wedi bod yn heriol o ganlyniad i'r targedau i leihau effaith dirgryniad ar y staff, a bod nifer y cwynion yn parhau i fod yn isel yn unol â'r blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, roedd y tywydd gwlyb a gwyntog dros gyfnod hir wedi effeithio'n sylweddol ar allu'r timau i allu mynd ar dir i gyflawni rhywfaint o'u rhaglen waith dros y gaeaf.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, dywedodd y swyddogion na fu unrhyw gyswllt pellach gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'u bod yn hyderus nad oedd unrhyw faterion yn weddill a bod yr heriau wedi arwain at fesurau gweithio cadarnach ar draws y timau.

**Nodwyd.**

- 11. Adroddiad Perfformiad ar yr Amcanion Llesiant am y Cyfnod yn diweddu 31 Mawrth 2024**

Dywedwyd bod yr adroddiad hwn yn nodi perfformiad yr Awdurdod yn erbyn ei bedwar Amcan Llesiant (Cadwraeth, Hinsawdd, Cysylltiad a Chymunedau) a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2023/24 - 2026/27. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r camau ymlaen yn erbyn dangosyddion blaenoriaeth, prosiectau, rhaglenni gwaith a gweithgareddau datblygu mewnol oedd yn gysylltiedig â'r gweithgareddau a glustnodir yng Nghynlluniau Cyflawni yr Awdurdod. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad hyd at 31 Mawrth ac yn cynnwys ystadegau C4 ar gyfer rhai mesurau. Nodwyd bod gwall teipograffyddol ar dudalen 127 lle roedd y ffigwr ar gyfer coed o dan y mesur NR1 yn ymwneud â nifer y coed, yn hytrach na nifer y metrau, a blannwyd.

Llongyfarchodd yr Aelodau y swyddogion ar eu gwaith, ac roeddent yn falch i nodi'r ffigurau ar allyriadau carbon oedd yn cael eu cofnodi. Nodwyd ganddynt bod cynnwys graffiau a diagramau o gymorth i ddeall y tueddiadau.

**Nodwyd.**

- 12. Adroddiad ar Fonitro Sicrwydd – Cydymffurfiaeth, Dyletswyddau Cyhoeddus a Statudol, a Gwelliant Corfforaethol**

Dywedodd y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth mai nod yr adroddiad hwn oedd adolygu perfformiad yr Awdurdod ar hyn o bryd o



ran cydymffurfiaeth, dyletswyddau cyhoeddus a statudol, a meysydd gwelliant corfforaethol. Dyma fyddai un elfen o'r dull rheoli risg fyddai'n cynorthwyo swyddogion a'r Aelodau i fonitro, asesu ac ymateb i feysydd gwaith cydymffurfiaeth a gwelliant corfforaethol. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu'r cynnydd yn erbyn y meysydd gwelliant corfforaethol a glustnodir yn y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol ac yng Nghynlluniau Cyflawni yr Awdurdod.

Roedd yr adroddiad yn rhoi sgôr gwydnwch ar gyfer pob maes, a lle cyrhaeddwyd y lefelau goddefiant neu sbardunau oedd yn arwain at sgôr a ystyriwyd 'mewn perygl' neu yn 'peri pryder' roedd gwybodaeth ychwanegol ac ymateb rheolwyr wedi'u nodi.

Roedd cynllunio yn un maes lle'r oedd nifer o sbardunau 'mewn perygl', ac roedd y Cyfarwyddwr yn cydnabod bod angen gwella'r ffigurau o wneud penderfyniad cyn pen 8 wythnos, ac amlinellodd y cynlluniau oedd ar waith i wireddu hynny. Roedd y nifer fawr o gytundebau cyfreithiol, sy'n cymryd llawer o amser, ac sydd eu hangen i ddarparu tai fforddiadwy, wedi cael effaith ar y ffigurau. Dywedodd bod ansawdd y penderfyniadau a wneir yn uchel, a amlygir gan y gyfradd apelio o 100% yn ystod y flwyddyn a bod hyn yn cyfiawnhau'r nifer uwch o geisiadau a wrthodwyd a gofnodwyd. Nodwyd nad oedd ymgynghorwyr yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd ar gyfer ceisiadau cynllunio neu waith gorfodi, ond bod hyn yn parhau i fod yn opsiwn petai gofyn. Roedd yr Aelodau yn gefnogol i'r camau sy'n cael eu cymryd.

Hefyd holodd yr Aelodau am y broses gyllidebu, a chadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai ymarferiad cyllidebu ar sail sero yn cael ei gynnal yn y flwyddyn i ddod, unwaith y byddai'r gwaith i glustnodi arbedion cyllidebol posibl wedi'i gwblhau. Hefyd dywedodd y byddai ymgynghorydd yn gweithio gyda'r Awdurdod i awgrymu syniadau ar gyfer creu incwm, a bod cyfarfod wedi'i drefnu gyda'r ymgynghorydd yr wythnos ganlynol.

## **Nodwyd.**

### **13. Prosiect Gwelliant Corfforaethol – Gwella Rheoli a Chyfathrebu Polisiâu a Safonau Corfforaethol**

Eglurodd y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth ei bod wedi gweld yr angen am i'r Awdurdod wella ei ddull o reoli a chyfathrebu polisiâu a safonau corfforaethol, a bod yr adroddiad yn nodi rhai o'r materion a godwyd a'r cyfleoedd ar gyfer gwella a glustnodwyd yn ogystal â'r camau a gymerwyd i weithredu'r gwelliannau. Aeth yr adroddiad rhagddo i amlinellu'r nifer fawr o safonau a pholisiâu sydd yn eu lle a'r gwaith oedd yn cael ei wneud i adolygu'r rhain lle bo angen.



Roedd yr Aelodau o'r farn bod hwn yn adroddiad defnyddiol o ran cydnabod y gwaith oedd angen ei wneud. Awgrymwyd y gallai pennu dyddiadau adolygu fod o gymorth wrth symud ymlaen, a holodd Aelod a fyddai'r polisïau hynny nad oedd wedi'u hadolygu ers peth amser yn cael eu blaenoriaethu. Ateb y swyddog oedd unwaith y byddai'r polisïau wedi'u trosglwyddo i'r templed newydd, y byddai rhaglen waith i'r dyfodol mwy realistig yn cael ei chreu.

**Nodwyd.**

#### **14. Eithrio'r Cyhoedd**

Ar gynnig y Cynghorydd Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd Alderman, **PENDERFYNWYD** eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.

#### **15. Gweithredu'r Polisi Rheoli Risg**

Dywedwyd bod yr Awdurdod, yn dilyn adroddiadau Archwilio Mewnol, wedi mabwysiadu dull newydd o reoli risg, a bod yr Awdurdod wedi cytuno ar Bolisi Rheoli Risg newydd fis Mawrth 2024. Yn dilyn ymlaen o hyn, roedd fformat newydd ar gyfer y Gofrestr Risg a Datganiad am Barodrwydd i Dderbyn Risg wedi'u datblygu a'u cyflwyno i'r Pwyllgor.

Roedd yr Aelodau yn hapus i dderbyn y gofrestr ddiwygiedig oedd yn cynnwys nifer llai o risgiau lefel uwch, a thrafodwyd y broses o adrodd ar risgiau lefel is fyddai i'w gweld ar is-gofrestri.

**Nodwyd.**

#### **16. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus**

**PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw faterion o bryder yr oedd y Pwyllgor yn dymuno eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried.

